**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

Cofnodion Cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2017 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 10 y bore.

YN BRESENNOL

Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| B Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| A Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| V Gay | Cyngor Sir y Fflint |
| J B Hughes | Cyngor Gwynedd |
| P R Lewis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| P Pemberton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| R Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G Williams | Cyngor Gwynedd |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); R Simmons a G Brandrick (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU

| | |
|---|---|
| M Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| R Griffiths | Cyngor Sir Ynys Môn |
| E W Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim

2 RHYBUDD O FATERION BRYS

2.1 Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau fod y PST wedi gofyn am gael annerch yr aelodau ynglŷn â chynnig cyflogau diffoddwyr tân; bydd hyn yn cael ei wneud o dan amodau rhan II.

3 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 13 CHWEFROR 2017

3.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

3.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

4 MATERION YN CODI

4.1 *11.2 Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2015 – Her Gyfreithiol i Amddiffyniad Trosiannol* – rhoddodd y DBST wybod i'r aelodau fod y Tribiwnlys Cyflogaeth wedi dyfarnu o blaid Cyflogwyr Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub (Cyd-gyngor yr NJC); ond mae'r achos yn mynd i apêl, sy'n debygol o gael ei gynnal yn 2018.

5 MONITRO PERFFORMIAD

5.1 Aeth y DBST â'r aelodau drwy'r adroddiad monitro perfformiad am flwyddyn ariannol 2016-2017. Roedd yr adroddiad yn cymharu'r perfformiad â'r flwyddyn flaenorol, sef 2015-16, yn ogystal â chyfartaledd y tair blynedd flaenorol.

5.2 Da oedd nodi y bu gostyngiad yn nifer yr anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi a bod mwy o bobl wedi gallu dianc yn ddianaf a heb gymorth o ddigwyddiadau o'r fath. Nodwyd bod y Crwner wedi cadarnhau bod pob un o'r pedair marwolaeth wedi digwydd o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi.

5.3 Roedd 27% o'r archwiliadau diogelwch yn y cartref a gynhaliwyd yn 2016-17 yn atgyfeiriadau gan sefydliadau sy'n bartneriaid inni, ac mae'r Gwasanaeth yn parhau i weithio â phartneriaid i sicrhau bod atgyfeiriadau'n cael eu gwneud ar ran pobl fregus yn y gymuned. Bu'r aelodau'n trafod llwyddiant rhaglen yr archwiliadau diogelwch yn y cartref a gosod larymau mwg, gan nodi ei bod wedi'i sefydlu ers 10 mlynedd erbyn hyn, sy'n golygu bod batris y larymau mwg a osodwyd yn 2007-2008 yn dod i ddiwedd eu hoes. Er mwyn i'r Gwasanaeth barhau â'r rhaglen, roedd angen cyllid a chydnabuwyd bod yr adnodd yn brinnach nawr o gymharu â 10 mlynedd yn ôl.

5.4 Bu 15.5% o ostyngiad yn y tanau bwriadol, a gellid priodoli hyn yn rhannol i waith y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol, sydd ar y cyd rhwng yr heddlu a'r gwasanaeth tân ynghyd â phartneriaid, yn targedu ardaloedd lle roedd tanau bwriadol wedi bod yn broblemus.

5.5 Roedd nifer y galwadau gwasanaethau arbennig (heblaw gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd) wedi cynyddu'n fawr, ac roedd hyn wedi digwydd yn bennaf o ganlyniad i gyflwyno'r tîm cymorth cymunedol, y cynllun treialu ymateb meddygol a hefyd y ffaith fod y Gwasanaeth yn cynorthwyo Heddlu Gogledd Cymru i chwilio am unigolion y cafwyd adroddiadau eu bod ar goll o gartref. Nodwyd bod y tîm cymorth cymunedol, sy'n cynorthwyo pobl sydd wedi cael codwm gartref, wedi arwain at sefyllfaoedd lle nad oes angen sylw gan ambiwlans ar 96% ohonynt.

5.6 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.**

6 MONITRO GWYBODAETH YN YMWNEUD Â DIGWYDDIADAU

6.1 Cyflwynodd y DBST yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r aelodau am hynt ail-sefydlu'r gallu i adrodd yn electronig mewn perthynas â gwybodaeth yn ymwneud â digwyddiadau, a hynny ar ôl gosod system meddalwedd newydd yn ddiweddar ar gyfer anfon allan.

6.2 Mae'r llwyddiant wrth osod system gorchymyn a rheoli newydd ym mis Mawrth 2017 wedi cael effaith ar y trefniadau presennol ar gyfer cofnodi, dilysu, trosglwyddo ac adrodd data sy'n ymwneud â digwyddiadau. Mae cysylltiad rhwng y system â nifer o systemau eraill, a rheini'n systemau hŷn, ac mae angen mudo'r holl wybodaeth i'r gronfa ddata newydd; mae'r gwaith hwn yn mynd yn ei flaen a gallai effeithio ar y drefn o gyflwyno adroddiadau monitro chwarterol i'r Panel Gweithredol.

6.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

7 CYDWEITHIO

7.1 Cyflwynodd PSTC Brandrick yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r aelodau am y cynnydd wrth ddatblygu prosiectau cydweithredol rhwng GTAGC, Heddlu Gogledd Cymru (HGC) ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Tân Ambiwlans Cymru (YGAC).

7.2 Mae prosiectau ar y cyd yn parhau i ddatblygu rhwng GTAGC, HGC ac YGAC drwy Fwrdd Rhaglenni Cydweithredu'r Tri Gwasanaeth. Mae gwaith y Bwrdd wedi cael eu drefnu o gwmpas tair ffrwd waith, sef: a) Atal ac Ymateb; b) Gwasanaethau Cefnogol; ac c) Ystafelloedd Rheoli ar gyfer Anfon Allan. Gwnaed cynnydd sylweddol eisoes o ran rhai meysydd, yn enwedig y ffrwd waith Atal ac Ymateb, ac mae'r gwaith yn parhau i ddatblygu mewn perthynas ag amrywiaeth o swyddogaethau eraill lle mae'r posibilrwydd yn bodoli i wella effeithlonrwydd a/neu gost-effeithiolrwydd drwy gydweithio.

7.3 Roedd yr aelodau'n falch o nodi bod YGAC wedi addo darparu nifer fach o glinigwyr i weithio o ystafell reoli ar y cyd yr heddlu a'r gwasanaeth tân er mwyn cyfrannu at y penderfyniadau ynglŷn ag anfon ambiwlans allan; bu hyn yn eithriadol o lwyddiannus.

7.4 **PENDERFYNWYD nodi a chroesawu'r wybodaeth a ddarparwyd.**

8 ADRODDIAD MONITRO'R GYMRAEG 2016-17

8.1 Cyflwynodd y PST yr adroddiad a oedd yn ceisio cael cymeradwyaeth yr aelodau i adroddiad monitro'r Gymraeg 2016-17 cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i Gomisiynydd y Gymraeg.

8.2 Roedd y Cyng. A Davies yn bryderus am y pwyslais ar y Gymraeg yn y Gwasanaeth. Cadarnhawyd bod y Gwasanaeth wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i'r cymunedau ledled Gogledd Cymru ers nifer o flynyddoedd, ac mae hefyd yn rhwym wrth Safonau newydd y Gymraeg a gyflwynwyd yn ddiweddar. Mae'r Gwasanaeth yn cefnogi pob gweithiwr i ddysgu'r Gymraeg ac i wella eu sgiliau iaith. Hefyd, mae pawb sy'n cael eu recriwtio a'r rhai sy'n dymuno ymuno â'r Gwasanaeth yn cael cymaint o gymorth ag sydd ei angen er mwyn llwyddo yn y prawf mynediad lefel 2, yn ogystal â chymorth ychwanegol yn cael ei roi i'r rhai sy'n dymuno cael dyrchafiad yn y Gwasanaeth. Hyd yma, nid oes neb wedi colli'r cyfle i ymuno â'r Gwasanaeth, na chael dyrchafiad yn y Gwasanaeth, oherwydd y prawf Cymraeg.

8.3 Dywedodd y Cyng. P Lewis y dylai'r Awdurdod fod yn falch o ymrwymiad y Gwasanaeth i'r Gymraeg a'r ffordd mae'n ymdrin â'r iaith, a'r ffaith fod Comisiynydd y Gymraeg wedi canmol gwaith y Gwasanaeth mewn perthynas â'r iaith.

8.4 **PENDERFYNWYD nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Gymraeg yn y Gwasanaeth, a chymeradwyo adroddiad monitro 2016-17 i'w gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.**

9 GRŴP Y GWASANAETH TÂN CYNHWYSOL – STRATEGAETHAU GWELLA

9.1 Cyflwynodd PSTC Simmons yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r aelodau am y strategaethau gwella a gynigiwyd gan Grŵp y Gwasanaeth Tân Cynhwysol dan arweiniad y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol.

9.2 Nododd yr aelodau fod y Grŵp, sy'n cael ei gadeirio'n annibynnol gan yr Athro Linda Dickens, wedi cael eu ffurfio ym mis Hydref 2015 er mwyn ystyried materion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a materion diwylliannol megis bwlio ac aflonyddu. Gofynnwyd i bob ATA yn y Deyrnas Unedig i ystyried y strategaethau arfaethedig o ran y modd y gellir eu hybu mewn Gwasanaethau unigol, a hefyd i gadarnhau eu bod yn cefnogi'r cynigion. Cafodd ymateb yr Awdurdod i gylchlythyr y Cyd-gyngor ei atodi i'r adroddiad er mwyn i'r aelodau ei ystyried.

9.3 Manylodd PSTC Simmons ynghylch y gwaith sy'n cael ei wneud yn GTAGC ar hyn o bryd, gan restru camau pellach i'w cymryd er mwyn adeiladu ar y cynnydd a chefnogi gwaith y Grŵp Cynhwysol.

9.4 Mynegodd y Cyng. Pemberton bryder am brinder yr wybodaeth am gostau sydd ar gael. Nodwyd y byddai'r gwaith hwn yn rhan o'r cytundeb ar gyflogau diffoddwyr tân yn y dyfodol, a rhagwelir mai'r prif adnodd angenrheidiol fydd amser swyddogion i weithio ar y prosiect.

9.5 O ran enwebu aelod o blith yr Awdurdod i arwain ar y materion hyn, cynigiwyd enw'r Cyng. Sue Lloyd-Williams gan y Cyng. P Lewis, oherwydd ei phrofiad fel deiliad portffolio gofal cymdeithasol ar Gabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

9.6 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r strategaethau gwella ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a materion diwylliannol a gynigir gan grŵp y Cyd-gyngor;**
**(ii) enwebu'r Cyng. Sue Lloyd-Williams i arwain ar y materion hyn;**
**(iii) cymeradwyo'r ymateb i Gylchlythyr NJC/8/17 cyhyd â bod y Cyng. S Lloyd-Williams wedi cael gweld y ddogfen.**

10 ARIANNU'R TÎM CYMORTH CYMUNEDOL

10.1 Cyflwynodd y DBST yr adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf am waith cynllun treialu Tîm Cymorth Cymunedol sy'n ceisio cynorthwyo pobl sydd wedi cadw codwm ond heb gael anaf.

10.2 Cafodd yr aelodau wybod bod cynllun treialu'r Tîm Cymorth Cymunedol wedi bod yn llwyddiant ysgubol, gan fod 375 o bobl wedi cael eu helpu gan y tîm rhwng 1 Awst 2016 a 31 Mawrth 2017; mae'r ffigwr diweddaraf dros 500. Yn Sir Ddinbych a Sir y Fflint y cafodd y cynllun ei gynnal yn bennaf, ond cafodd ei ymestyn i Wrecsam yn gynnar yn 2017. Ar 96% o'r adegau, nid oedd angen cymorth pellach gan YGAC, a 26 munud oedd amser ymateb y tîm ar gyfartaledd, yn wahanol i amser ymateb ambiwlans sy'n gallu bod hyd at bedair awr. Roedd yr aelodau'n croesawu canlyniadau cadarnhaol y cynllun.

10.3 Cafodd yr aelodau yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa o ran adnoddau a chyllid, ac roeddent yn siomedig o nodi bod y cais Caremore wedi cael ei wrthod. Gofynasant i'r PST godi'r mater gyda'r Gweinidog, ac i anfon llythyr at Lywodraeth Cymru os oes angen i dynnu sylw at lwyddiant y cynllun treialu ac i ofyn am gymorth ariannol er mwyn i'r cynllun allu parhau.

10.4 Wrth i'r swyddogion geisio cyllid arall ar gyfer prosiect y tîm cymorth cymunedol, gofynnwyd i'r aelodau gytuno bod yr Awdurdod yn parhau i gefnogi'r prosiect hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol ac i danategu'r costau gyda £100k o'r cronfeydd cyffredinol wrth gefn.

10.5 Mynegodd rhai aelodau bryder am weithredu fel hyn o ystyried y goblygiadau a nodir yn yr adroddiad ynglŷn â risg a'r gyllideb, gan deimlo bod hynny'n rhoi pwysau ychwanegol ar gyllideb sydd eisoes yn dynn. Fodd bynnag, esboniodd y PST y rhagwelir mai mesur dros dro yw hyn hyd nes canfod cyllid, gan ailbwysleisio bod staff y tîm cymorth cymunedol wedi cael contractau blwyddyn ac y byddai'n rhaid eu diswyddo os na chytunir ar y cynnig. Ar ôl trafod y mater am gryn amser, **PENDERFYNWYD cefnogi'r prosiect am chwe mis pellach gan ddefnyddio arian a glustnodwyd o'r gronfa gyffredinol, ac adolygu'r prosiect y pryd hwnnw.**

RHAN II - Yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gofynnwyd i'r wasg a'r cyhoedd adael y cyfarfod tra'r oedd yr eitem fusnes ganlynol(eitemau busnes canlynol) yn cael ei hystyried oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraff(au) 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu iddynt.

11 CYNNIG CYFLOGAU DIFFODDWYR TÂN

11.1 Rhoddodd y PST wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y trafodaethau rhwng Cyd-gyngor yr NJC ac Undeb yr FBU am gynnig cyflogau diffoddwyr tân. Y cynnig oedd 2% o godiad cyflog ar 1 Gorffennaf 2017 a 3% o gynnydd pellach ar 1 Ebrill 2018, yn amodol ar gael cyllid gan y llywodraethau canolog. Roedd disgwyl penderfyniad Undeb yr FBU am y mater ar 24 Gorffennaf; petai'r cynnig yn cael ei wrthod, bydd y gwaith cyd-ymateb/ymateb meddygol brys yn dod i ben. Cafodd yr aelodau eu hatgoffa bod yr ATA yn rhwym wrth benderfyniad y Cyd-gyngor.

11.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd a bod yr wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei hanfon at yr aelodau fel y bo'n briodol.**